YSGOL EIFIONYDD PORTHMADOG

ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR
GOVERNORS REPORT
2021—2022

GAIR Y CADEIRYDD

Mae'r amser wedi cyrraedd unwaith eto imi rannu adroddiad cryno gyda chi o sut mae'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol wedi cyflawni ein dyletswyddau dros y flwyddyn diwethaf. Yn dilyn dwy flynedd cythryblus iawn gwelwyd ddychweliad i normalrwydd o fewn bywyd ysgol. Yn anffodus mae'r pandemig wedi gadael ei hoel ar iechyd meddwl nifer o'n disgyblion. Mae'r ysgol yn ymwybodol iawn o hyn ac yn parhau i weithio'n galed i geisio sicrhau fod pob unigolyn sydd angen cefnogaeth yn ei dderbyn. Nid yw hyn yn dasg hawdd bob amser gan fod nifer o sefydliadau sy'n cynnig cefnogaeth, eu hunain yn dioddef o ddiffyg staff a phwysau cynyddol ar eu adnoddau. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y gofal gorau i'n disgyblion er mwyn eu galluogi i oresgyn eu pryderon fel y gallent ddychwelyd i'r ysgol a chyflawni eu potensial o fewn awyrgylch hapus a diogel.

Er na allwn adrodd ar berfformiad academaidd cymharol yn yr adroddiad unwaith eto oherwydd effeithiau'r pandemig, braf yw gallu adrodd fod disgyblion blwyddyn 11 wedi llwyddo yn eu arholiadau TGAU. Mae eu llwyddiant yn dystiolaeth i'w dyfalbarhad a'u haeddfedrwydd dan amgylchiadau heriol yn ogystal âc ymroddiad a sgil ein staff dysgu yn eu darparu ar gyfer yr arholiadau. Dymunwn pob llwyddiant iddynt yn eu cam nesaf ar eu llwybr bywyd.

Rwy'n falch o adrodd fod y gwaith o baratoi a chyflwyno'r Cwricwlwm Newydd wedi symud yn ei flaen yn llwyddiannus dros y flwyddyn diwethaf. Ers mis Medi mae disgyblion blwyddyn 7 yn gweithredu addysg sy'n seiliedig ar y Cwricwlwm Newydd. Tua hanner ysgolion uwchradd Cymru sy'n cynnig yr addysg yma ar hyn o bryd. Un o'r manteision mwyaf o gychwyn y gwaith ym mlwyddyn 7 y flwyddyn yma yw na fydd angen cyflwyno a threialu'r Cwricwlwm Newydd ond ym mlwyddyn 8 y flwyddyn nesaf ac nid i flynyddoedd 7 ac 8 fel yn yr ysgolion rheini sydd heb afael ynddi eleni. Mae gwneud hyn wedi galluogi ein athrawon i ganolbwyntio eu hymdrechion ar sicrhau bod gwersi blwyddyn 7 yn ateb gofynion y cwricwlwm, yn ennyn diddordeb y disgyblion ac yn cynnig addysg berthnasol a grymusol iddynt. Er mwyn sicrhau dilyniant a pharatoadau effeithiol mae cydweithio agos yn digwydd rhwng ysgolion cynradd y fro a nifer o ysgolion uwchradd eraill yng Ngwynedd. Y nod yw i ddarparu addysg fwy priodol ar gyfer ein disgyblion er mwyn iddynt ffynnu yn y byd sy'n bodoli heddiw.

Arhosir prif flaenoriaethau'r ysgol yn ddiogelwch a lles ein disgyblion wrth gefnogi eu datblygiad addysgol. Gallwn gyflawni hyn orau drwy gydweithio a'n gilydd yn ddisgyblion, staff, rhieni, llywodraethwyr a chymuned. Hoffwn gloi drwy ddiolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r broses o gynnal a datblygu ein disgyblion dros y flwyddyn diwethaf.

Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi.

Yn gywir,
Nerys Wyn Jones

WORD FROM CHAIRPERSON

The time has come once again for me to share a summary report with you of how the Head and Governing Body have performed our duties over the past year. Following two very turbulent years a return to normality has occurred within school life. Unfortunately, the pandemic has left its mark on the mental health of many of our pupils. The school is very aware of this and continues to work hard to try to ensure that all individuals who need support receive it. This is not always an easy task as many organizations that offer support are themselves suffering from a lack of staff and increasing pressure on their resources. We are committed to ensuring the best care for our pupils to enable them to overcome their issues so that they can return to school and fulfill their potential within a happy and safe environment.

Although once again, because of the pandemic, we cannot report on comparative academic performance, I am happy to be able to inform you that year 11 pupils succeeded in their GCSE exams. Their success is evidence of their perseverance and maturity under challenging circumstances as well as the dedication and skill of our teaching staff in preparing them for the exams. We wish them every success in their next step on their life path.

I am proud to be able to report that the work of preparing and presenting the New Curriculum has progressed successfully over the past year. Since September, year 7 pupils have been implementing education based on the New Curriculum. Around half of Welsh secondary schools currently offer this education. One of the biggest advantages of starting the work in year 7 this year is that the New Curriculum will only need to be introduced and trialed in year 8 next year and not in years 7 and 8 as in those schools that have not yet begun on the work. Doing this has enabled our teachers to focus their efforts on ensuring that year 7 lessons meet the requirements of the curriculum, engage the pupils' interest, and offers them a relevant and empowering education. To ensure effective progression and preparation, close collaboration takes place between the local primary schools and a number of other secondary schools in Gwynedd. The aim is to provide our pupils with an education that prepares them more appropriately so that they can flourish in the world that exists today.

The school's main priorities remain the safety and well-being of our pupils while supporting their educational development. We can best achieve this by working together as pupils, staff, parents, governors, and community. I would like to conclude by thanking everyone who has been part of the process of supporting and developing our pupils over the past year.

Wishing you a Merry Christmas and a Happy New Year

Yours sincerely,
Nerys Wyn Jones

Ysgol Eifionydd, Porthmadog, Gwynedd. LL49 9HS

Pennaeth/ Headteacher: Mr. Dewi Bowen B.Sc
Pennaethiaid Cynorthwyol / Assistant Headteachers:
Mrs. Gwyneth E Owen B.Add & Mrs. Lyn Parry Hughes B.A

Tachwedd/November 2022

Annwyl Riant / Gwarchodwr,

ADRODDIAD BLYNYDDOL RHIENI GYDA'R LLYWODRAETHWYR
Amgaeaf gopi o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr am y flwyddyn academaidd 2021-2022

Mae hawl gan rieni i alw cyfarfod i drafod yr adroddiad. Ni chynhelir y cyfarfod os oes llai na 10% o rieni (neu 30 rhiant pa r'un bynnag sydd leiaf) yn gwneud cais am gyfarfod – Ni chafwyd cais am gyfarfod yn 21/2

Dear Parent/ Guardian,

ANNUAL GOVERNORS REPORT TO PARENTS

Attached please find a copy of the Governors Annual Report for 2021-2022

Parents have the right ro request a meeting to discuss the report. A meeting will not be held if there is less than 10% of parents (or at least 30 parents of registered pupils sign the petition). – No requests were made for a meeting during 21/22.

Yn gywir iawn/ Yours sincerely,

Nerys Jones
Cadeirydd y Corff Llywodraethol/Chair of Governors

CYFARFODYDD BLYNYDDOL LLYWODRAETHWYR GYDA RHIENI

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 nid oes yn rhaid i Gyrff Llywodraethu'r ysgol gynnal cyfarfodydd blynyddol gyda rhieni. Bellach mae'r ddeddf yn caniatáu i rieni ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn gyda'r corff llywodraethu drwy gyfrwng deiseb.

Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu gynnal cyfarfod o fewn 25 diwrnod ysgol o dderbyn y deiseb, cyn belled â bod y ddeiseb yn cynnwys llofnod yr isafswm angenrheidiol o rieni, sef yr isafswm o'r canlynol:

1. Rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig, neu
2. Rhieni 30 o ddisgyblion cofrestredig.

Mae'n rhaid i'r cyfarfod y mae'r rhieni wedi gofyn amdano drafod materion sy'n berthnasol i'r ysgol

Gellir cael mwy o fanylion ar sut i ofyn am gyfarfod drwy naill ai gysylltu â'r ysgol, fynd i safle we'r ysgol neu fynd ar safle we'r cynulliad.

Ni dderbyniwyd cais gan rieni i gynnal cyfarfod blynyddol gyda'r llywodraethwyr yn 2020-2021
No requests were received from parents for Governors annual meeting during 2020-2021

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o sut y cyflawnodd y Pennaeth a'r Llywodraethwyr eu swyddogaethau yn ystod y flwyddyn. Bydd copi o'r adroddiad ar gael i rieni drwy ymweld â safle we'r ysgol moodle.eifionydd.gwynedd.sch.uk

MANYLION AELODAETH Y CORFF LLYWODRAETHU/MEMBERS OF GOVERNING BODY	
Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Leol	**Cyfnod i ben**
Cyng. Selwyn Griffiths	31.8.22
Cyng. Nia Jeffreys	31.8.22
Mrs Bethan Nickson	31.8.24
Cyng. Eirwyn Williams	31.8.22

Aelodau Cyfetholedig		**Cyfnod i ben**
Mr Gwilym Jones		31.8.22
Ms Nerys Wyn Jones	(Cadeirydd)	31.8.25
Mrs Nia Fon Lane	(Is-gadeirydd)	31.8.24

Cynrychiolwyr Rhieni	**Cyfnod i ben**
Mrs Marian Grace Jones	31.8.22
Mr Dylan Hughes	31.8.24
Mrs Catrin Rhys	31.8.24
Mrs Siwan Roberts	31.8.23
Mr Gareth Iddon Edwards	31.8.22

Cynrychiolwyr Staff Dysgu	**Cyfnod i ben**
Mrs Catrin Elan Roberts	31.8.25
Mr Roger Vaughan	31.8.22

Cynrychiolwyr Staff Ategol	**Cyfnod i ben**
Miss Llio Meleri Dudley	31.8.24

Aelodau'r Cyngor Ysgol	**Cyfnod i ben**
Emma Davey	31.8.22
Cai Williams	
Sion Williams	
Louis Watson	

Pennaeth: Mr Dewi Rhys Bowen B.Sc
Cadeirydd y Llywodraethwyr: Ms Nerys Jones
Clerc i'r llywodraethwyr: Mrs Marian Crowe (Swyddog Gweinyddol), Ysgol Eifionydd.

Gellir cysylltu â'r Cadeirydd drwy'r Pennaeth, neu trwy law Clerc y Llywodraethwyr

Anwytho llywodraethwyr newydd
Mae'n bleser croesawu aelodau newydd y Corff Llywodraethu ar ddechrau eu cyfnod. Dymunaf bob llwyddiant iddynt yn eu gwaith.

Cyllideb Ddiwygiedig 2021-2022	CYLLIDEB	GWEDDILL YN DILYN CYSONI MIS 11	ARBEDION TEBYGOL 31/3/22
GWEITHWYR			
Staff Addysgu			
Athrawon	1413038	54779.54	54779
Athrawon ADY	13177	8189.41	7800
Llanw Arall	45282	5363.35	5363
Llanw Ad daliadau - Yswiriant Salwch	20633	18979.94	18979.94
Baich Athrawon	77261	15662.49	15662
Uwch Oruchwylwyr Amser Cinio	7329	-349.68	-349
Gwariant Dysgu Proffesiynol	6256	250.37	0
Uned Cynhwysiad	300	253.78	0
Staff Ategol			
Staff Gweinyddol/Technegwyr	114129	4219.56	4219
Staff yr Awr	30751	1524.34	0
Cymorthyddion AAA	131268	7378.14	7000
Gwariant Datblygu Disgyblion (Amddifadedd)	44544	146.71	146
Arolygwyr Arholiadau	1500	1500	1500
Costau Hysbysebu	1000	501	501
ADEILADAU			
Cynllun Datblygu Adeiladau	70805	3014.69	3014
Cynnal a Chadw Cyffredinol	42419	27750.09	27750
Cynnal a Chadw Newydd	2500	0	0
Defnyddiau Glanhau	10550	795.94	0
Dodrefn	5371	-49.81	-49.81
Trethi	40390	0	0
Dwr	9500	1599.35	1599
Nwy	24839	17936.28	10000
Trydan	28876	13131.46	4000
Cynllun Rheoli Carbon	10003	66	66
Cytundebau			
Glanhau	66458	958	958
Goruchwylio Adeiladau - Adain Eiddo	3985	0	0
Cynllun Datblygu Diogelwch	5451	-2918.35	-2918
Offer Ymladd Tan	2204	1398.55	1398
CLUDIANT			
Lwfansau Ceir	400	355.64	355.64
Cludiant Cyrsiau Coleg	12575	976.16	0
Bysus	2500	1185	900
Bws Mini	2000	3498.23	3000
Meysydd Dysgu Cwricwlwm Newydd	38047	2848.51	2848

Adnoddau	15713	5243.82	0
Anghenion Arbennig	3350	3271.71	3271
Astudiaethau'r Gweithle	1834	1834	1834
Bagaloriaeth	250	233.7	233
Clwb Drama	100	-912.56	-13
Cronfa Tymor Hir Cyfrifiaduron	56813	42264.37	20000
Cyfieithu	250	250	250
Cymorth Cyntaf	1300	123.58	123.58
Cyngor Disgyblion	50	50	50
Cynllun Nwyddau Hylendid Merched	1619	1427.37	0
Cwricwlwm	5263	139.48	139.48
Gyrfaoedd	200	200	200
Llungopio	-3285	12822.79	12822
LLyfrgell	589	-23.8	-23.8
Llythrennedd	500	-30.99	-30.99
Marc Ansawdd	0	0	0
Technoleg Hybysaeth	0	0	0
Cyllid Pennaeth	500	500	500
Cyllid Llywodraethwyr	50	50	50
CYFL A GWASANAETHAU			
Defnyddiau Swyddfa	3800	1433.6	0
Post	2109	644.04	644
Arholiadau	45078	11110.7	7417.11
Ffon	2650	1903.81	1000
GWASANAETHAU ALLANOL			
Pyllau Nofio	9926	-44	-44
Cyrsiau Allanol CA4	600	600	0
Gwariant Gwella Addysg	22365	1772.54	1772
Gwariant Cynllun Plant mewn Gofal	3053	984.81	984
Gwariant Rhaglen Cyflymu'r Dysgu	31438	-0.33	-0.33
Cynllun Offerynnol - Gwasanaeth William Matheias			
Cynllun Offerynnol - GWARIANT	9318	-438	0
Cynllun Offerynnol - INCWM	0	4830	1800
Cynllun Busy Bees	0	0	0
Cytundebau CYNNAL			
CYNNAL - Atal firws a hidlo mynediad	0	0	0
Cefnogaeth Sustemau Rheolaethol	8237	0	0
Cefnogi Offer cyfrifiadurol	12304	1	1
CYNNAL - Cydlynnu CPYU	0	0	0
CYNNAL - Dadansoddi Canlyniadau	0	0	0
Patrymlun hunan arfarniad ar lein	0	0	0
Cynllun Partiau - Profion Trydanol	2514	2514	2514

Cytundebau SIROL			
Gwasanaeth Rhwydwaith Gwynedd	9684	0	0
Gwasanaeth Cyllidol	454	0	0
Rheoli Banc/Incwm	601	0	0
Cyflogau	4851	0	0
Cynnal Tiroedd	12227	1857	1857
Cytundeb Gwasanaeth Darparu Arlwyaeth			
Prydau Bwyd - GWARIANT	44293	-35383.78	10796.43
Prydau Bwyd - INCWM	0	64097.01	25195.41
ARIAN WRTH GEFN	20000	20000	20000
Llog ar Falansau	0	0	0
CYFANSWM GWARIANT	2615939	334270.56	0
INCWM			
Gosodiadau Nos	0	0	0
Gosodiadau - Dydd	0	0	0
Incwm Arall	0	8592	8592
Grant Codi Safonau CA3	0	0	0
Grant Datblygu Disgyblion	-44850	0	0
Grant ANG	0	3469.02	3469.02
Grant Celfyddydau Cymru	0	0	0
Grant Cyrsiau Rhwydwaith	0	0	0
Grant Dysgu Proffesiynol	0	0	0
Grant Gwella Addysg	-22365	-794.02	-794.02
Grant Plant Mewn Gofal	0	1	0
Grant Pensiwn Athrawon	0	0	0
Grant Refeniw Hylendid Merched	0	0	0
Grant Rhaglen Cyflymu'r Dysgu	-31438	121.47	121.47
Grant Tal Athrawon	0	0	0
CYFANSWM INCWM	-98653	11390.47	0
CYFANSWM Y GYLLIDEB	**2517286**	**345661**	**293252.13**

DYDDIADAU CYFARFODYDD *Y* LLYWODRAETHWYR/GOVERNORS MEETINGS

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyfarfu'r Corff Llywodraethu fel a ganlyn

Corff Llawn (Cyntaf y Tymor Newydd)	-	28/9/21
Is Bwyllgor Adolygu Tal a Rheoli perfformiad	-	12/10/21
Is Bwyllgor Penodiadau a Staffio	-	12/10/21
Is Bwyllgor Cyllid	-	12/10/21
Is Bwyllgor Lles a Cwricwlwm	-	19/10/21
Is Bwyllgor Iechyd & Diogelwch ac Adeiladau	-	Gohirwyd (COVID)
Corff Llawn (Ail gyfarfod -Tymor y Gaeaf)	-	23/11/21
Is Bwyllgor Penodiadau a Staffio	-	Gohriwyd (COVID)
Is Bwyllgor Cyllid	-	18/1/22
Is Bwyllgor Lles a Cwricwlwm	-	8/2/22
Is Bwyllgor Iechyd & Diogelwch ac Adeiladau	-	8/2/22
Corff Llawn (Trydydd cyfarfod - Tymor y Gwanwyn)	-	15/3/22
Is Bwyllgor Penodiadau a Staffio	-	3/5/22
Is Bwyllgor Cyllid	-	17/5/22

Is Bwyllgor Cwricwlwm a Lles	-	17/5/22
Is Bwyllgor Iechyd a Diogelwch ac Adeiladau	-	Gohirwyd (COVID)
Is Bwyllgor Penodiadau a Staffio	-	14/6/22
Corff Llawn (Cyfarfod olaf -Tymor yr Haf)	-	21/6/22

POLISIAU

Gweler rhestr o'r polisiau a adolygwyd/fabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethu yn ystod y flwyddyn addysgol 2021-22.

- Polisi Rheolau ynglyn absenoldebau Athrawon
- Polisi Recriwtio a Dethol Diogel
- Polisi & Gweithdrefn – Achwynwyr di baid afresymol ac Ymddygiad afrestymol Achwynwyr
- Polisi Menopôs
- Polisi Codi Tal am Weithgareddau Addysgol
- Polisi Codi Tal am Wersi Offerynnol
- Polisi Asesu
- Polisi ADY a Chynhwysiad
- Polisi Gwisg Ysgol Eifionydd
- Polisi Ymddygiad Cadarnhaol
- Polisi Plant mewn Gofal
- Polidi Diogelu Data Ysgolion 2022
- Polisi Gosod Adeiladau'r Ysgol
- Polisi Ymweliadau Addysgol
- Polisi Amddiffyn Plant

CYNGOR YSGOL

Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn brysur eto eleni ac yn cwrdd o leiaf unwaith y mis, gyda rhai o'r aelodau yn darparu adroddiadau am eu gwaith ac yn eu cyflwyno yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethol unwaith y tymor.

CYLLIDEB YSGOL EIFIONYDD 2021-2022

Ni dalwyd costau teithio i unrhyw un o aelodau'r corff llywodraethu yn ystod y flwyddyn.

CRYNODEB O BERFFORMIAD YSGOLION UWCHRADD

Dim perfformiad cymharol academaidd yn 21-22 oherwydd effaith pandemig Covid-19.

PRESENOLDEB 2021-2022

Yr oedd 384 o ddisgyblion ar lyfrau'r ysgol ar 1af o Fedi, 2021 gyda 26.56 o athrawon. Y rhif mynediad am y flwyddyn 2022/2023 yw 362. Dyma ffigyrau'r ysgol, fesul blwyddyn a fesul tymor ar gyfer 2021-22

	Tym 1	Tym 2	Tym 3
Blwyddyn 7	91.41%	89.4%	88.6%
Blwyddyn 8	89.18%	88.3%	87.9%
Blwyddyn 9	90.09%	87.9%	86.8%
Blwyddyn 10	88.56%	86.8%	85.8%
Blwyddyn 11	84.88%	86%	79.1%

Bu l'r pandemig effeithio canranau presenoldeb yr Ysgol am y flwyddyn 21/22.

Noder na chymeradwyir i deuluoedd drefnu gwyliau yn ystod y tymor, yn enwedig os yw'r disgyblion ym mlwyddyn 10 ac 11, gan fod absenoldeb o'r fath yn sicr o amharu are u addysg. Dylid cysylltu â'r Pennaeth i drafod unrhyw gais i fynd â disgybl o'r ysgol ar wyliau yn ystod tymor ysgol.

GWEITHGAREDDAU Y BU'R YSGOL YNGHLWM A HWY YN YSTOD Y FLWYDDYN YSGOL

- Dan arweiniad Mrs Nia Rees ein Gweithiwr Ieuenctid bu rhai o ddisgyblion blwyddyn 10 gefnogi prosiect gardd Bwyd Bendigedig Port / Incredible Edible er mwyn dod a mwy o lefydd gwyrdd i'r dre.
- Cafwyd cyfres o weithdai celf i flwyddyn 7 gan yr artist lleol Catrin Williams i ddathlu llwyddiant prosiect LleCHI.
- Codwyd £340 tuag at elusen Macmillan ac adnoddau i'r ysgol trwy werthu cacennau gan y Cyngor Ysgol.
- Bu criw Gwobr Dug Caeredin Blwyddyn 10 gwirfoddoli ar ddiwrnod Golff Uchel Siryf Gwynedd – Mr Gwyn Peredur Owen.
- Cafwyd diwrnod dillad eu hunan / gwisg ffansi i godi arian i elusen Plant Mewn Angen yn ogystal â raffl siocled a gwerthu cacennau
- Diwedd Rhagfyr bu staff a disgyblion cyfrannu eitemau a chasglu arian ar gyfer Banc Bwyd Pwllheli. Llwyddwyd llenwi 4 troli orlawn o nwyddau.
- Codwyd £548 ar ddechrau mis Mawrth i'r Groes Goch gan y disgyblion ar gyfer cynorthwyo pobl Wcráin yn dilyn trychineb ymosodiad milwrol Rwsia. Bu i staff cyfrannu yn uniongyrchol ar lein i'r elusen a phrynu nifer o eitemau fydd yn cael eu cludo i'r ardal.
- Cynigwyd cynllun WITH Gobaith i nifer o ddisgyblion bregus Ysgol Eifionydd. Mae'n brosiect awyr agored cyllidwyd gan Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfle i bobl ifanc fod y tu allan ym myd natur ac elwa ar yr holl fanteision therapiwtig ac addysgol sy'n gysylltiedig. Nod y prosiect yw meithrin hunan hyder, gwydnwch, sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol y disgyblion trwy Goedwig/Bushcraft, celf a chrefft a gweithio gyda cheffylau.
- Cynigwyd hefyd yr Ysgol Goedwig i bobl ifanc fod y tu allan ym myd natur ac elwa ar yr holl fanteision therapiwtig ac addysgol sy'n gysylltiedig â chreu yn yr Awyr Agored. Mae'r prosiect yn meithrin hunan hyder, gwydnwch, sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol y disgyblion. Mae'r unigolion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau fel adeiladu cawell a chwcio yn yr Awyr Agored.
- Cafodd blwyddyn 7 cyfle i gyfrannu at Record Byd cydganu Yr Urdd wrth iddynt ganu 'Hei Mr Urdd' i ddathlu 100 mlynedd ers sefydlu.
- Cynhaliwyd cwrs LGBTQ+ gan GISDA wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae'r Prosiect Ieuenctid LGBT + yn cynnig cymorth i bobl ifanc sy'n nodi eu bod yn LGBT + (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thraws +) Mae'r sesiynau yn achrediad ychwanegol i gwrs Agored Cymru – AbaCh rydym eisoes yn cynnal ac yn codi ymwybyddiaeth ar faterion LGBT +.
- Bu disgyblion abl a thalentog blwyddyn 8 cael cyfle i ddysgu am gymhelliant mewn gweithdy cynllun SEREN - Meistroli Cymhelliant gyda 'Positively You' a wnaeth disgyblion abl blwyddyn 9 cwblhau 'Gweithdy Magu Dygnwch'.
- Dathlwyd 'Diwrnod Miwsig Cymru' gydag amrywiaeth o weithgareddau hwyliog a llawer o ganu a gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg.
- Bu Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd a'r Urdd cynnal clwb dringo yn wythnosol i flwyddyn 8.
- Cynhaliwyd hefyd daith i Ganolfan Bowlio 10 Glasfryn gan Miss Nia Rees o Wasanaeth Ieuenctid Gwynedd.
- Bu blwyddyn 7 ymuno gydag ymweliad rhithiol gyda'r Awdur Adam Hills. Nodwyd fod ymddygiad y disgyblion yn wych.
- Bu i Mr Crowe gynnal nifer o glinigau iechyd meddwl yn ystod wythnos iechyd meddwl a thu hwnt i grwpiau bach o ddisgyblion.
- Dathlwyd 25 mlynedd o "Ddiwrnod y Llyfr" trwy hyrwyddo clwb rhannu llyfrau a dosbarthu talebau llyfrau
- Derbyniodd yr ysgol 150 o goed am ddim gydag adnoddau i'w plannu diolch i gais yr ysgol i'r Woodland Trust. Bu I griw o ddisgyblion Gwobr Dug Caeredin a rhai o ddisgyblion Ysgol Hafod Lon yn eu plannu.
- Bu i ddisgyblion gystadlu ar ran Ysgol Eifionydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych.
- Llwyddodd 10 o ddisgyblion blwyddyn 10 ennill Gwobr Efydd Dug Caeredin ar ôl cyfeiriannu rhai milltiroedd o amgylch yr ardal leol a champio dros nos.
- Diolchiadau i Mr Martin Pritchard am ei rhodd o sawl copi o'r tair cyfrol " Y Dyddiau Gynt Ym Mhorthmadog a Thremadog".
- Cynhaliwyd Cyngerdd Croesawu Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd Cynradd ac Uwchradd llwyddiannus yn yr ysgol.
- Cynhaliwyd ymarferion Dawns Blodau'r Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd yn ystod mis Mai a Mehefin, 2022
- Bu'r Gyfadran Celfyddydau Mynegiannol a Chymraeg dathlu ein bro drwy gyfansoddi alawon, paentio a darlunio tirluniau ac arwyddion. Anfonwyd ffilm o'r cynnyrch ymlaen i'r Eisteddfod fel rhan o Seremoni Croesawu.
- Cynhaliwyd seremoni gwobrwyo a prom i flwyddyn 11 yng Nghlwb Golff Morfa 24/06/22 er mwyn ffarwelio gyda'r disgyblion.
- Mae'r ysgol wedi bod yn brysur gyda chydweithrediad Coleg Meirion Dwyfor yn sicrhau fod blwyddyn 10 eleni am y tro cyntaf ers dwy flynedd yn cael wythnos o brofiad gwaith 04/07/22 i 08/07/22. Dymunwn bob lwc i'r disgyblion ar eu profiad gwaith.

- Cynhaliwyd sawl gwers fel rhan o'r broses pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd yn ystod tymor y gwanwyn a'r haf. Diolch arbennig i'r Adran Saesneg. Yn ystod wythnos yr 27/06/22 byddwn yn gwahodd pob disgybl flwyddyn 6 o'r dalgylch mewn am ddau ddiwrnod o wersi uwchradd. Ar wahân i hynny byddwn hefyd yn gwahodd blwyddyn 5 i mewn am ddau ddiwrnod o weithgareddau.
- Cynhaliwyd wythnos Iechyd a Lles yn llawn gweithgareddau amrywiol ar gyfer blynyddoedd 7 i 9 yn ystod wythnos yn cychwyn 04/07/22.

YMWELIADAU'N YMWNEUD Â'R CWRICWLWM

Mae TRAC yn parhau i weithio yn agos gyda disgyblion sydd mewn peryg o ddadrhithio gyda addysg ac wedi trefnu nifer o weithgarddau amrywiol.

IECHYD A DIOGELWCH

GWAITH A GWBLHAWYD 2021 -2022	**TU ALLAN I'R ADEILAD:** ▸ Gosod meinciau eistedd a meinciau picnic. **TU MEWN I'R ADEILAD:** ▸ Adnewyddu'r tamprwydd yn y Llyfrgell. ▸ Adnewyddu'r tamprwydd mewn 2 ystafell ddosbarth - Chwefror 2022. ▸ Gosod llawr newydd yn yr Ystafell Adoddau a'r Ystafell Arholiadau. ▸ Mân waith peintio. ▸ 'Worktops' a sincs newydd yn yr ystafell Bwyd a Maeth. **DODREFN:** ▸ Byrddau a chadeiriau newydd ymhob ystafell ddosbarth heblaw Ywyddoniaeth, Cerdd, a'r Ystafelloedd Cyfrifiaduron. ▸ Byrddau a chadeiriau newydd i'r Neuadd/Cantîn.
RHAGLEN WAITH/ MATERION HAF 2022	**TU MEWN I'R ADEILAD:** Peintio'r coridor o'r swyddfa i lawr at Sa2.
GWARIANT CYFALAF [aros am gadarnhad gan y Sir]	Rhestr o'r gwaith addasrwydd sydd wedi ei adnabod eisoes gan y Sir ar gyfer Ysgol Eifionydd**:** • Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thrin aer ar gyfer dosbarth TG • Bleinds ar gyfer y llawr cyntaf i leihau enillion solar • Ailwampio 3 labordy • Lifft platfform ar gyfer 3 gris/step i'r ystafell ddosbarth celf. • Adnewyddu ystafelloedd newid y gampfa • Arwyddion ar gyfer yr ysgol a'r uned iaith • Creu llwybr i wahanu cerddwyr/disgyblion a bysiau ar iard yr ysgol er mwyn mynd i'r afael â materion rheoli traffig. • Ailfodelu'r brif fynedfa i wahanu disgyblion ac ymwelwyr • Ailfodelu'r ystafell Gerdd.

Y mae'r Ysgol yn cadw data personol am ddisgyblion a staff ac wedi cofrestru hynny gyda'r Cofrestrydd Data.
Mae sicrhau diogelwch disgyblion a staff yr ysgol yn flaenoriaeth gan y Corff Llywodraethu. Bu trafodaeth am drefniadau'r ysgol pan mewn argyfwng a chymeradwywyd y cynlluniau a gyflwynwyd.

Mae camerâu diogelwch sydd yn recordio wedi eu gosod o amgylch yr ysgol.

Gofynnir i rieni /llywodraethwyr/ ymwelwyr/contractwyr wneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer ymweld â'r ysgol pan fo hynny yn bosib. Dilynir y drefn ffurfiol o arwyddo mewn/allan yn y Brif Swyddfa a rhoddir bathodyn adnabod i bawb sydd yn cael mynediad i'r ysgol.

DYDDIADAU A THYMHORAU YSGOL/SCHOOL TERM DATES 2022-2023

TYMOR

Hydref 2022	1 Medi 2022 – 23 Rhagfyr 2022
Gwanwyn 2023	9 Ionawr 2023 –31 Mawrth 2023
Haf 2023	17 Ebrill 2023 - 20 Gorffennaf 2023

GWYLIAU

Hanner tymor Hydref	31 Hydref- 4 Tachwedd 2022
Gwyliau Nadolig	26 Rhagfyr 2022 -6 Ionawr 2023
Hanner tymor Gwanwyn	20 - 24 Chwefror 2023
Gwyliau'r Pasg	3 - 14 Ebrill, 2023
Calan Mai	1 Mai 2023
Hanner tymor Haf	29 Mai – 2 Mehefin 2023
Gwyliau Haf	21 Gorffennaf – 31 Awst 2023

Oriau agor ysgol: 9.00yb – 3.30yp (Egwyl cinio 12.25yp – 1.25yp)
Amser cofrestru bore: 08.55 – 9.15
Amser cofrestru pnawn: 1.25 – 1.30

Bydd y disgyblion yn dychwelyd l'r ysgol dydd Gwener 4 Medi, 2023

Cynhelir 4 diwrnod Hyfforddiant mewn swydd a 1 diwrnod dan reolaeth Ysgol sef 1/9/23
Daw hyn a nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 195.

PROSPECTWS YSGOL/SCHOOL PROSPECTUS

Gellir gweld prospectws yr ysgol ar wefan Ysgol Eifionydd.

http://ysgoleifionydd.org

MAES CHWARAEON

Gweithgareddau chwaraeon sydd yn cael eu cynnig - Pêl droed, Hoci, Nofio, Pêl-rwyd, Rhedeg Traws-gwlad, Rygbi, Rownderi, Criced, Badminton, Pêl fasged, Gymnasteg. Yr Amserlen: O fewn amserlen 30 cyfnod, neilltuir 2 gyfnod yr wythnos ar gyfer addysg gorfforol a chwar

Cyfleusterau
Mae gan yr ysgol un faes pêl-droed a dau faes rygbi, cyrtiau ar gyfer tenis a phêl rwyd, llain ar gyfer rownderi a wiced bob tywydd ar gyfer criced. Yn Neuadd Ddawns gymunedol yr ysgol ceir wal ddringo ac adnoddau ar gyfer hyfforddiant dringo a ffitrwydd.

Amserlen
Mae'r ysgol yn cynnig amserlen pum cyfnod ar ugain. Neilltuir dau gyfnod yr wythnos ar gyfer Addysg Gorfforol a Chwaraeon yn CA3 ac un yn CA4. Neilltuir dau gyfnod yr wythnos ar gyfer Addysg Gorfforol fel pwnc TGAU dewisol.

Digwyddiadau
Cafwyd temau pel droed marched a bechgyn yn ystod y flwyddyn. Llongyfarchiadau l'r disgyblion I gyd a gymerodd ran

CWRICWLWM

Y CWRICWLWM NEWYDD
Mae'r ysgol gyda strwythur cwricwlaidd newydd ***i Ddysgu*** sy'n seiliedig ar '*Cwricwlwm Newydd i Gymru*'. Mae athrawon eisoes yn cyflwyno elfen o'r cwricwlwm i flwyddyn 7 o dan y teitl '*Dewch i Ysgol Eifionydd*'. O dan arweiniad Mrs Gwyneth Owen rydym wedi ffocysu ar ddechrau sefydlu o ddifri ar y Cwricwlwm Newydd. Rhaid pwysleisio nad ydi Cwricwlwm 2022 yn golygu newid yr hyn yr ydym yn ei addysgu/ddysgu'n gyfan gwbl. Yn hytrach mae'n golygu edrych ar ein darpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 3 a'r gofynion pynciol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 er mwyn sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth addysgol yn gyson dda, ac yn caniatáu i gyfadrannau a phynciau gydweithio'n drawsgwricwlaidd i wireddu'r weledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru.

CA3

Mae'r ysgol yn cyflwyno gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ond hefyd yn diwallu anghenion pob disgybl. Yn 2021/22 roedd tri dosbarth dysgu ym mlynyddoedd 7, 8 a 9 gyda niferoedd o rhwng 15 a 30 ymhob un. Ym Ml 7 caiff y disgyblion eu dysgu mewn dau grŵp gallu cymysg ac un grwp llai ar gyfer cymorth ychwanegol. Ym Ml 8 mae'r disgyblion yn cael eu grwpio yn y Gymraeg, Saesneg a Mathemateg. Mae un dosbarth anghenion dysgu arbennig ym Ml 9 gyda gallu cymysg fel arall ac eithro setio yn y pynciau craidd - Cymraeg, Gwyddoniaeth, Mathemateg a Saesneg.

Yn CA3 addysgir y canlynol: Addysg Grefyddol, Addysg Gorfforol, ABCh, Celf, Cerddoriaeth, Drama, Cymraeg, Llythrennedd, Daearyddiaeth, Ffrangeg, Gwyddoniaeth, Hanes, Mathemateg, Rhifedd, Saesneg, Technoleg, Technoleg Gwybodaeth a Chyfrifiadureg (TGCh). Ar ddiwedd Bl 9 bydd y disgyblion yn dewis eu pynciau ar gyfer Hanner Tymor olaf Blwyddyn 9 a Blynyddoedd 10/11.

Bydd rhai disgyblion yn derbyn gwersi estynedig darllen a rhif, a bydd disgyblion hwyrddyfodiad i CA3 yn treulio cyfnod yn y Ganolfan Iaith sydd wedi ei leoli ar dir yr ysgol.

Cynigwyd elfen o ddysgu llythrennedd a rhifedd yn ychwanegol i ddisgyblion trwy raglen 'Dysgu Carlam' wedi ei dargedu at ddisgyblion oedd wedi disgyn tu ôl ychydig yn ystod y cyfnodau cloi.

CA4

Mae pob disgybl yn dilyn cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae pob disgybl yn dilyn y cyrsiau canlynol: Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Addysg Grefyddol (fel ran o'i gwersi ABaCh), Addysg Gyrfaoedd (fel rhan o'i gwersi ABaCH), Addysg Gorfforol, Cymraeg, Gwyddoniaeth, Saesneg, Mathemateg. Cynigwyd elfen o ddysgu llythrennedd a rhifedd yn ychwanegol i ddisgyblion trwy raglen 'Dysgu Carlam' wedi ei dargedu at ddisgyblion oedd wedi disgyn tu ôl ychydig yn ystod y cyfnodau cloi.
Yn ogystal mae colofnau dewis sydd yn cynnwys y pynciau a chyrsiau galwedigaethol - **dyma'r opsiynau ar gyfer disgyblion Bl10 a gynigir ar gyfer Medi 2021-2023**

COLOFN A	COLOFN B	COLOFN C
• Hanes TGAU (E) • Bwyd a Maeth TGAU (E) • Addysg Gorfforol TGAU (E) • *Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig (Dyfarniad Lefel 1/2) (E)* • *Trin Gwallt – Ardudwy (ddim yn ymddangos mewn colofnau)*	• Busnes BTEC (Lefel 2) (E) • Celf TGAU (E) • Dylunio a Thechnoleg – Dylunio Cynnyrch TGAU (E) • Astudiaethau Crefyddol TGAU (E) • Ffrangeg TGAU (E) • Dug Caeredin / Tystysgrif Awyr Agored (E)	• Daearyddiaeth TGAU (E) • Cyfrifiadureg TGAU (E) • Tecstilau TGAU (E) • Cerdd TGAU Ysgol - Glan y Môr • BTEC Amaethyddiaeth Lefel 2 - CMD • BTEC Peirianneg (Lefel 2 / 1) - CMD • Agored Cymru – Tystysgrif Estynedig Addysg Gysylltiedig â Gwaith (Lefel 2/1) (E)

Mae'r cyswllt rhwng Ysgol Ardudwy yn parhau gyda disgyblion yr ysgol yn dilyn cwrs Trin Gwallt, City & Guilds. Noder trefniant gyda Ysgol Glan y Môr ble mae disgyblion yn mynychu cwrs TGAU Cerdd. Mae disgyblion Bl 10 a Bl 11 Eifionydd yn parhau i gefnogi cyrsiau cydweithredol Coleg Meirion Dwyfor drwy ddilyn cyrsiau Peirianwaith ac Amaethyddiaeth.

Nosweithiau Rhieni – Tymor yr Hydref
Cynhaliwyd diwrnod agored blwyddyn 6 mewn person yn hytrach na trwy gyfrifiadur ar 19/10/21. Oherwydd pryderon o ran trosglwyddiad Covid roedd yn rhaid addasu yn sylweddol. Ni chynhaliwyd cyfarfod torfol yn y Neuadd. Fodd bynnag cynhyrchwyd dau fideo un i groesawi ac un technegol am systemau'r ysgol. Arweiniwyd grwpiau bach o rieni gan ddisgyblion fesul teuluoedd i wahanol rannau o'r ysgol er mwyn iddynt adnabod yr adeilad ac i siarad gydag athrawon. Er ei fod yn fymryn llai o sioe na'r nosweithiau pontio arferol cyn Covid roedd yn llwyddiant gyda rhieni yn diolch am y profiad.
Er mwyn leihau trosglwyddiad Covid cynhaliwyd nosweithiau rieni eleni trwy ddefnydd o system ffrydio fideo Schoolcloud.

Nosweithiau Rhieni – Tymor y Gwanwyn
Cynhaliwyd nosweithiau rhieni trwy raglen rithiol ffrydio Schoolcloud ar gyfer rieni disgyblion blynyddoedd 10, 9 ac am yr ail dro eleni blwyddyn 11 yn ystod y tymor hwn. Fe fydd noson rieni blwyddyn 9 yn digwydd 22 o Fawrth.

Nosweithiau Rhieni - Tymor yr Haf
Cynhaliwyd noson pontio yn ystod Tymor yr haf, 2022

Y WISG YSGOL
Yn dilyn cais gan y Corff Llywodraethol i edrych ar wisg ysgol newydd ymgynghorwyd gyda'r Cyngor Ysgol. Yn eu barn roedd y wisg bresennol ddim yn addas a bellach yn debyg i ran fwyaf o wisgoedd cynradd. Roeddent yn dymuno gwisg lliw du traddodiadol gyda tei a defnydd o blazers. Barn y Tîm Rheoli oedd oherwydd y gost dylid ystyried y blazer yn ddewisol ac i atal 'chwarae gyda maint y tei' dylid defnyddio tei 'clip on'. Gweler taflen ymgynghorol ar y wisg. Dylid hefyd addasu'r bathodyn i sicrhau fod yr arwyddair 'YMLAEN' yn eglur. Y mae pob rhiant bellach yn ymwybodol o'r newid gwisg o ran blwyddyn 7 Medi 2022 ac i weddill yr ysgol erbyn Medi 2024. Rydym wedi pwysleisio'r angen am drywsus wedi telwra erbyn Medi 2022 i bob disgybl. Rhoddir opsiwn rhatach gweler y llawlyfr ysgol.

GRANT DYSGU CARLAM / CYMORTH LLYTHRENNEDD A RHIF:
Bu l'r Grant barhau gan lywodraeth Cymru yn 21/22 i sicrhau fod disgyblion yn dal i fyny gyda'r hyn a gollwyd yn ystod y cyfnodau cloi. Mae Eifionydd wedi ffocysu ar sgiliau craidd iaith a rhif yn bennaf trwy raglen 'Dysgu Carlam'.

Fel rhan o'r rhaglen Dysgu Carlam mae'r Ysgol wedi cyflogi 3 aelod o staff i dargedu grwpiau bach ar gyfer sesiynau dwys o lythrennedd Cymraeg a Saesneg yn ystod gwersi a chreu grwpiau mathemateg llai er mwyn targedu sgiliau rhif. Mae dwy Uwch Gymhorthydd yn targedu sgiliau darllen disgyblion ym mlynyddoedd 7 a 8 yn bennaf yn unol â'r patrwm arferol. Yn anffodus y mae lefel Covid ymysg staff a diffyg argaeledd athrawon llanw wedi llesteirio'r cynlluniau ar adegau

Mae rhaglen llythrennedd - sillafu a gramadeg Lexia yr ysgol yn parhau i dargedu blwyddyn 7 yn y bore ac un dosbarth ADY ym mlwyddyn 8 ac mae uwch gymhorthyddion wedi ail afael ar dargedu sgiliau darllen disgyblion mewn grwpiau bach.

Llwyddwyd trefnu profion darllen a rhif cenedlaethol yn syth ar ddiwedd hanner tymor. Dylai'r profion fod yn fesuriad gwrthrychol o effaith y cyfnod clo ar addysg sylfaenol.

Cyswllt Cynradd /Uwchradd
Cynhelir perthynas glos rhwng y ddau sector er mwyn sicrhau fod rhieni a darpar ddisgyblion yn ymgyfarwyddo â'r ysgol uwchradd cyn dechrau ar eu cyfnod ynddi. Er mwyn cynnal y berthynas agos yma gyda'r cynradd mae Ysgol Eifionydd yn cynnig ymweliad i'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Fel arfer yn ystod yr ymweliadau yma mae'r disgyblion yn cael cyfle i fynychu gwersi Technoleg, Ffrangeg, Saesneg ac Addysg Gorfforol. Oherwydd effaith y pandemig bu rhaid cwtogi ychydig ar yr arlwy, ond cafwyd ymweliadau cyson gyda'r ysgol gan aros mewn swigen ysgol ac o fewn un dosbarth. Datblygir adnabyddiaeth dda o ddarpar ddisgyblion yn ystod y cyfnodau yma. Cynhelir cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng y pennaeth cynorthwyol – Mrs Lyn Parry Hughes a disgyblion blwyddyn 6 yn dymhorol ynghyd â disgyblion Ysgol Eifionydd.

System tracio cynnydd
Mae'r ysgol yn tracio Cyfnod Allweddol 3 yn erbyn targedau a sefydlwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r ysgol yn dadansoddi gwybodaeth Cyfnod Allweddol 3 am ymddygiad ac ymdrech ein cynllun gwobrwyo a'r adroddiadau interim. Addaswyd y system hyn ar gyfer y cyfnod clo er mwyn llawn adlewyrchu ymdrech disgyblion. Mae'r tracio yma yn sail i drafod dulliau a strategaethau cefnogi disgyblion unigol ac ymateb i unrhyw dangyflawni. Oherwydd y pandemig eleni ni chynhaliwyd cyfweliadau aelodau grŵp tiwtor yn unigol neu mewn grwpiau.

Yng Nghyfnod Allweddol 4 sefydlir targedau heriol, ond cyraeddadwy i ddisgyblion ar ddechrau'r flwyddyn. Fel arfer mae'r ysgol yn tracio cynnydd yn erbyn y targedau bob hanner tymor ac yn adrodd i rieni, eleni addaswyd hyn i adlewyrchu yr ymdrech welwyd yn ystod y cyfnod clo. Defnyddir system Go4Schools i dracio disgyblion fesul pwnc. Canolbwyntiwyd ar dracio cynnydd blwyddyn 11 o ran TGAU a BTEC eleni fel rhan o dystiolaeth allweddol o gynnydd y disgyblion wrth osod asesiadau mewnol yn lle arholiadau allanol.

Sefydlwyd blaenoriaethau 2022/23 yn sgil hunan arfarniad o ddarpariaeth yr ysgol yn ystod 2021/22 a chynlluniau cenedlaethol:

Cynllun Gwella Ysgol 2022-2023
Blaenoriaethau:

1. Gwella safonau ar draws yr ysgol trwy sicrhau fod disgyblion yn ail afael mewn gwaith ysgol yn dilyn y cyfnodau cloi.
2. Cryfhau ansawdd yr addysgu trwy ddatblygu technegau effeithiol ar gyfer herio ac ymestyn disgyblion
3. Darparu cwricwlwm newydd *i-Ddysgu* (Cwricwlwm i Gymru 2022).
4. Darparu a gwreiddio strwythurau Bugeilol a Lles i gefnogi'r dysgu.

Rhyddhawyd athrawon trwy'r Grant Gwella Addysg i ddilyn cyrsiau neu arweiniad pellach ar gyfer cymwysterau TGAU ac i ddatblygu y Cwricwlwm newydd.

Cynhwysiad
Mae'r ysgol yn gweithredu polisi o gynhwysiad ac yn sicrhau safon uchel o addysg briodol i bob dysgwr. Mae gennym hefyd uned fydd yn gweithio ar agweddau penodol o anghenion emosiynol ac ymddygiadol dysgwyr. Pwrpas yr uned yw rhoi cefnogaeth i ddisgyblion sy'n mynd trwy gyfnodau anodd sy'n gallu effeithio ar agwedd ac ymddygiad. Cyflogir athro - Mr Sion Cadwaladr i weithredu fel Swyddog Cynhwysiad yr Uned.

Mae'r ysgol hefyd gyda Swyddog Cymorth i Deuluoedd a Disgyblion Mr Gareth Crowe er mwyn delio gyda nifer o faterion lles dwys sydd bellach yn codi yn rheolaidd o fewn cymuned yr ysgol.
Mae Ms Glesni Prydderch wedi gweithredu fel Cwnselydd Ysgol efo Mrs Heather Hughes yn ei chefnogi.
Mae'r ddarpariaeth am 2 ddiwrnod yr wythnos.
Mrs Theresa Hodgson yn gweithredu fel Swyddog Presenoldeb a Phrydlondeb.
Mae'r nyrs ysgol Miss Elain Jones yn parhau i wneud 'drop ins' wythnosol.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL/ DISGYBLION GYDAG ANABLEDDAU

Mae'r ysgol yn ysgol ddynodedig i blant ac anghenion corfforol arbennig ag i blant a nam golwg ac mae wedi ei haddasu i'r pwrpas hwnnw.

Gwelir y canlynol fel y prif egwyddorion:

- Sicrhau safonau uchel a chynhwysiad cymdeithasol llawn.
- Sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i blant ac anghenion dysgu ychwanegol.
- Cydweithio'n effeithiol ac asiantaethau statudol perthynol i'r maes, megis yr Awdurdod Iechyd, Gwasanaeth Cymdeithasol Gyda'n gilydd, CAMHS, TRAC
- Sicrhau ymateb ysgol gyfan i anghenion dysgu ychwanegol a pheidio â chyfyngu cyfrifoldeb i staff penodol.

Mae Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi'i mabwysiadu gan y Llywodraethwyr ac fe'i hadolygir yn flynyddol. Cyfrifoldeb Miss.Llinos Williams, Cydlynydd ADY, yw sicrhau fod y ddarpariaeth ADY yn gyflawn, yn gyfredol ac yn gywir. Y llywodraethwr Dynodedig yw Mrs Siwan Roberts.

Prif egwyddor ac amcan ADY yr ysgol yw sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i holl blant yr ysgol, beth bynnag fo'u cyflwr addysgol, corfforol neu feddygol. Dylid sicrhau'r nod yma yn ddieithriad. Mae'r ysgol yn anelu at safonau uchel ar gyfer pawb a chymhwysiad cymdeithasol llawn. Gwneir hyn trwy ateb gofynion deddf gwlad, trwy ddarparu yn ôl cyfarwyddyd ac arweiniad yr AALl a thrwy weithio yn fewnol mewn cydweithrediad â rhieni ac asiantaethau allanol, a hynny dan arolygaeth y corff llywodraethol.

Adnoddau Dysgu

1. Llyfrau i oed darllen isel ond diddordebau i oed arddegol.
2. Grwpiau cefnogi mewn Llythrennedd, Rhifedd a Llawysgrifen.
3. Y Cymhorthyddion wedi eu hyfforddi mewn rhaglenni Llythrennedd ee. O Gam I Gam, Camu 'Mlaen.
4. Offer Mathemategol i ddysgu sgiliau byw.
5. Offer cyfrifiadurol – Workdshark, Numbershark, Lexia, Tric a Chlic
6. 'Bydi' meithrin cyfeillgarwch er mwyn atal bwlio.
7. Cynlluniau Dysgu Unigol neu Broffill un tudalen i bawb ar y Gofrestr ADY
9. Cefnogaeth unigol gan gymhorthydd addysgol.
10. Cymhorthyddion ADY wedi mynychu cyrsiau HMS Cyngor Gwynedd

Cyllid — Swm penodol i ADY drwy ddyraniad integreiddio'r Sir

Staff — Mae'r Cydlynydd ADY. yn gyfrifol am ateb gofynion AAA yr ysgol.
Amser i'r cydlynydd - 5 awr yr wythnos.
Mae cyfwerth â 8 cymhorthydd addysgol.
Amser dysgu cynhaliol
Hyfforddiant Cymorth Cyntaf i staff ymdopi ag anhwylderau megis Epilepsi a sut i ddefnyddio epi pen.
Y Cydlynydd yn darparu gwersi Rhifedd a Llythrennedd a Llawysgrifen i unigolion a grwpiau bychan o ddisgyblion am 10 awr yr wythnos.
Dwy gymhorthydd dosbarth a delir ar raddfa Uwch Gymhorthydd i ddarparu gwersi Llythrennedd i unigolion a grwpiau bychan o ddisgyblion am 5 awr yr wythnos yr un.
Cymorthyddion Dysgu hefyd yn cynnal sesiynau 'Talkabout'/ELSA ar gyfer cefnogaeth emosiynol, Learning Breakthrough a Theipio

Asesu a Chynnal

Bydd anghenion yn cael eu canfod trwy:-

i) Profion Cenedlaethol y Cynulliad
ii) gwybodaeth a drosglwyddir gan ysgolion cynradd
iii) wybodaeth a drosglwyddir gan asiantaethau allanol
iv) waith ysgrifenedig, profion sillafu a thrwy i athrawon ddatgan pryder
v) asesiadau darllen o fewn y gwersi Cymraeg
vi) asesiadau darllen o fewn y gwersi Saesneg
vii) Profion Diagnostig gan y Cydlynydd a'r Uwchgymorthyddio Llythrennedd:
viii) Profion Rhifedd– Gillham & Hesse Basie Number Screening
ix) Profion unigol sillafu Saesneg -Young's Parallel Spelling.
x) Detailed Assessment of Speed of Handwriting (DASH)
xi) Diagnostic Reading Analysis 2 (DRA)
xii) Profion Darllen Cymraeg & Sillafu Glannau Menai

YR IAITH GYMRAEG

Mae'r ysgol wedi ei gosod yng nghategori iaith: A Llywodraeth Cymru
Yn unol â pholisi'r Awdurdod mae Ysgol Eifionydd yn gweithredu polisi dwyieithog yn holl agweddau bywyd yr ysgol. Yr amcan yw datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn ddwyieithog er mwyn ei galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas y maent yn rhan ohoni. Bydd holl agweddau addysg yr ysgol, ei gweinyddiad, ei bywyd cymdeithasol, ei threfn fugeiliol a'i darpariaeth academaidd yn hyrwyddo ac yn atgyfnerthu'r polisi iaith. Bydd addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn rhan o gwrs addysg pob plentyn trwy gydol ei bum mlynedd yn yr ysgol. Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer y disgyblion hynny a ddaw i'r ysgol yn ystod Bl 7-11 heb wybodaeth ddigonol o'r Gymraeg a'r Saesneg. Gwnawn ddefnydd o'r Ganolfan Iaith sydd wedi ei lleoli ar y safle.

CYFLEUSTERAU TOILEDAU

Darperir cyfleusterau toiledau newydd o safon i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr.
Mae toiled ar gyfer unigolion gydag anableddau o safon uchel ar lawr isaf yr ysgol ger y brif dderbynfa.
Mae toiledau staff, ymwelwyr a thoiledau disgyblion ar wahân wedi eu lleoli o amgylch yr ysgol.
Mae'r toiledau yn cael eu glanhau yn drylwyr ar ddiwedd pob diwrnod ysgol.
.

BWYTA'N IACH

Rydym wedi ymrwymo i'r Mesur Bwyta'n Iach ac Yfed mewn Ysgolion sy'n ymgorffori'r arweiniad ar gyfer 'Blas am Oes'e.e. dim diodydd melys pefriog, digon o ffrwythau a llysiau a chydbwysedd maeth. Mae'r ysgol yn gweithredu o fewn canllawiau 'Blas am oes Llywodraeth Cymru'. Oherwydd y pandemig eleni ni cafwyd cyfarfodydd o'r Grŵp Snag rhwng cynrychiolwyr yr Awdurdod Gwasanaeth Darparu, y gogyddes ac aelodau'r Cyngor Ysgol. Amlygir pwysigrwydd bwyta'n iach mewn gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Technoleg Gwybodaeth a Gwyddoniaeth yn benodol. Mae system SchoolGateway yr ysgol yn hysbysu rhieni o ddiet eu plant.